



BANK OF ENGLAND

Meddylwch am Wyddoniaeth, Tynnwch lun o wyddonwyr!

Rhowch wybod i ni pwy ddylai fod ar ein papur £50 newydd

Rydym yn creu papur £50 newydd. Rydym am iddo gynnwys rhywun sydd wedi cyfrannu i wyddoniaeth. Ac mae arnom angen eich cymorth i benderfynu pwy ddylem ei gynnwys — trwy dynnu llun o'ch papur banc eich hunan!

YR HYN MAE ANGEN I CHI EI WNEUD

Efallai fod gennych wyddonydd rydych yn ei edmygu eisoes, ond os nad oes, dylech chi wneud rhywfaint o ymchwil i ganfod unigolyn rydych chi'n credu y dylai fod ar y papur banc £50.

Rydym yn chwilio am rywun a edmygir yn eang a mae ei waith wedi cael effaith barhaol ar gymdeithas Prydain. Mae rhai rheolau ynghylch pwy y gallwch ei ddewis, ond byddwch chi'n gweld lliaws o wyddonwyr cyffrous ac ysbrydoledig y gallwch chi ddewis rhyngddynt. Gallai hynny gynnwys: astronomeg, bioleg, bio-dechnoleg, cemeg, peirianeg, mathemateg, ymchwil feddygol, ffiseg, technoleg a sŵoleg.

Ar ôl i chi benderfynu ar eich hoff wyddonydd, gallwch chi dynnu llun ohonyn nhw fel rhan o gynllun eich papur banc ar y dudalen nesaf.

Y RHEOLAU

Mae llawer o bobl yn ceisio copïo papurau banc ond mae hyn yn erbyn y gyfraith. Rhowch gynnig ar gynllunio papur sy'n eiddo i chi, a fydd yn anodd i bobl ei gopïo a sy'n dangos wyneb y gwyddonydd o'ch dewis ond sydd hefyd yn defnyddio lluniau i gynrychioli eu cyflawniadau.

Caiff y papur £50 newydd ei argraffu ar bolymer, sy'n lanach, diogelach a chryfach na phapurau banc papur, felly gallech chi hefyd ystyried cynnwys nodweddion megis ffenestri tryloyw neu ddarnau ffoil i wneud eich papur yn fwy diogel.

AWGRYMIADAU AR GYFER CYNLLUN

Rhaid bod unrhyw un sy'n ymddangos ar y papur £50 newydd:

- wedi cyfrannu i faes gwyddoniaeth
- fod yn unigolyn gwirioneddol — felly dim cymeriadau ffug os gwelwch yn dda
- heb fod yn fyw — Ei Mawrhydi'r Frenhines yw'r unig eithriad
- wedi llunio'r ffordd rydym yn meddwl, byw a gweithio yn y DU
- ysbrydoli pobl, nid eu gwahanu

I ddysgu rhagor am ein papurau banc a sut y dewisir y cymeriadau, ewch i www.bankofengland.co.uk/banknotes

Tynnwch lun o gynllun eich papur banc yma



Pwy yw'r gwyddonydd neu'r gwyddonwyr ar gynllun eich papur banc?:

Pam ydych chi wedi'u dewis?

Gofynnwch i'ch rhiant neu athro rannu llun o'ch cynllun ar Twitter gyda @bankofengland erbyn 14 Rhagfyr 2018. Peidiwch ag anghofio tagio'ch lluniau fel #ThinkScience. Gallwch chi gynnwys eich enw cyntaf ac oedran os hoffech chi ond nid yw hyn yn hanfodol.